# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 7

AMRYWIOL

*Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi*

### 92 Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar y diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym yn llawn neu cyn hynny.

(2) Rhaid i'r Cynllun wneud darpariaeth ar gyfer rhoi grantiau gan Weinidogion Cymru i bersonau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddant yn hyrwyddo neu'n gwella llesiant cymdeithasol neu amgylcheddol ardaloedd yng Nghymru a effeithir gan—

- (a) gwneud gwarediadau tirlenwi, neu
- (b) gweithgareddau sy'n baratoadol ar gyfer gwneud gwarediadau tirlenwi.

(3) Caiff y Cynllun ddarparu i'r grantiau—

- (a) cael eu dyrannu drwy gyfeirio at feini prawf a bennir yn y Cynllun;
- (b) bod yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y Cynllun neu gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) adolygu'r Cynllun—

(i) o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyhoeddir gyntaf, a

(ii) yn dilyn hynny, o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblheir yr adolygiad blaenorol, a

(b) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy pan fyddant yn gwneud hynny.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu'r Cynllun ar ôl cynnal adolygiad; ond ni chaniateir dirymu'r Cynllun o fewn y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyhoeddir gyntaf.

(6) Os caiff y Cynllun ei ddiwygio, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun diwygiedig.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Cynllun, ac unrhyw Gynllun diwygiedig, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 92 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 92 mewn grym ar 8.11.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 3(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.